

Adroddiad Arolygu Ysbyty (Dirybudd)

Adran Wroleg - Ysbyty Brenhinol
Gwent, Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan

Dyddiad yr arolygiad: 03 a 04 Mai 2023

Dyddiad cyhoeddi: 04 Awst 2023



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-83504-458-2

© Hawlfraint y Goron 2023

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddi-dduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	8
	• Ansawdd Profiad y Claf	8
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	11
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	16
4.	Y camau nesaf	19
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	20
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	21
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	22

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd yn Wardiau D2 y Dwyrain a'r Gorllewin, Ysbyty Brenhinol Gwent, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar 3 a 4 Mai 2023. Adolygwyd y wardiau ysbyty canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Ward D2 y Dwyrain - 21 o welyau yn darparu gwasanaethau wroleg
- Ward D2 y Gorllewin - 16 o welyau yn darparu gwasanaethau wroleg llawfeddygol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 19 o holiaduron. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau Arolygydd Gofal Iechyd AGIC, dau adolygydd cymheiriaid clinigol ac un adolygydd profiad y claf. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o Uwch-arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#)

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Rhoddodd y cleifion adborth cadarnhaol iawn ar y gofal a'r driniaeth roeddent wedi'u cael.

Gwelsom fod y staff yn trin cleifion â pharch a charedigrwydd, a'u bod wedi gwneud ymdrech ar y cyfan i ddiogelu eu preifatrwydd a'u hurddas wrth ddarparu gofal.

Roedd y cleifion i'w gweld yn cael gofal da a gwelsom fod y staff yn ymateb yn brydlon i geisiadau'r cleifion am gymorth.

Er i ni weld gwybodaeth yn cael ei harddangos ar yr hysbysfyrddau, nid oedd hyn yn cynnwys gwybodaeth hybu iechyd nac yn cyfeirio at wasanaethau penodol.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Darparu gwybodaeth hybu iechyd ar y ddwy ward
- Darparu arwyddion i helpu cleifion sydd â diffyg ar y synhwyrau
- Cyflwyno cynllun i helpu i ofalu am gleifion gyda nam gwybyddol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gwelsom lawer o enghreifftiau o'r staff yn trin y cleifion â pharch a charedigrwydd
- Gwelsom fod poen y cleifion yn cael ei rheoli'n dda
- Gwelsom y staff yn annog y cleifion i symud.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod wardiau'r ysbyty'n darparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion.

Gwelsom fod trefniadau da ar waith i atal cleifion rhag datblygu briwiau pwyso ac i atal cleifion rhag cwmpo. Hefyd, gwelsom fod trefniadau da ar waith i ddiwallu anghenion maeth a hydradu'r cleifion.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn cydymffurfio â'r polisi noeth o dan y penelin.

- Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y drws i'r ystafell meddyginiaethau ar gau ac yn ddiogel bob amser.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gwelsom fod trefniadau da ar waith i atal cleifion rhag datblygu briwiau pwyso ac i'w hatal rhag cwmpo
- Gwelsom brosesau cadw cofnodion cynhwysfawr
- Gwelsom fod iPads yn cael eu defnyddio i gofnodi a gwerthuso cofnodion o arwyddion hanfodol i fywyd.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Nodwyd bod strwythur rheoli addas ar waith a chafodd llinellau adrodd ac atebolrwydd clir eu disgrifio a'u hamlygu.

Disgrifiodd yr uwch-aelodau o staff system archwilio i fonitro ansawdd a diogelwch y gwasanaethau a ddarperir ar y wardiau. Gwelsom fod y trefniadau ansawdd a diogelwch ar y wardiau yn briodol.

Roedd gan y bwrdd iechyd raglen hyfforddiant gorfodol gynhwysfawr ac roedd cydymffurfiaeth y staff yn dda ar y ddwy ward.

Gwelsom fod y mwyafrif o'r staff oedd ar gael wedi cael arfarniad diweddar.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant ar symud a chodi a chario yn ddiogel.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gwelsom fod strwythur rheoli da ar waith gyda llinellau adrodd ac atebolrwydd clir
- Roedd cydymffurfiaeth y staff â hyfforddiant yn dda ar gyfer llawer o bynciau
- Gwelsom fod y rhaglen Gofal Diogel yn adnodd dibynadwy i sicrhau bod lefelau staffio diogel ar y ward.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ddefnyddio holiaduron papur ac ar-lein i gasglu barn ac adborth gan gleifion a gofalwyr. Cwblhawyd cyfanswm o 19 o holiaduron. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

“Mae'r staff wedi bod yn wych, hyd yn oed y staff a oedd yn mynd â fi i'r theatr.”

“Staff sylwgar a dymunol iawn”

“Mae'r meddygon ymgynghorol a'r nyrsys yn effeithlon ac yn gyfeillgar iawn. Dim byd ond triniaeth ragorol ac mae'r gwasanaeth yn arbennig.”

“Mae'r holl staff wedi bod yn ardderchog, o'r meddyg ymgynghorol i'r glanhawr.”

Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Hybu Iechyd

Gwelsom wybodaeth yn cael ei dangos am ddementia, anabledau dysgu a phrofedigaeth. Fodd bynnag, nid oedd gwybodaeth hybu iechyd fel rhoi'r gorau i smygu, maeth na sgrinio am ganser i'w gweld ar y naill ward na'r llall. **Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff gwybodaeth a chynghor hybu iechyd am amrywiaeth o gyflyrau iechyd ei harddangos ar y ward. Yn ogystal, cofiwch gynnwys gwybodaeth gyfeirio ar gyfer gwasanaethau fel rhoi'r gorau i smygu er mwyn i gleifion allu cyrraedd y gwasanaethau hyn.**

Dywedwyd wrthym nad oedd smygu yn cael ei ganiatáu unrhyw le yn yr ysbyty. Mae hyn yn unol â deddfwriaeth gyfredol i helpu i atal clefydau a achosir gan fwg ail-law. Dywedwyd wrthym hefyd fod cleifion yn cael eu cyfeirio at wasanaeth rhoi'r gorau i smygu'r bwrdd iechyd lle gallent gael gafaél ar gyngor a chymorth i'w helpu i stopio smygu.

Gofal urddasol a pharchus

Yn ystod ein harolygiad, gwelsom lawer o enghreifftiau o'r staff yn trin y cleifion â pharch a charedigrwydd ac yn gwneud ymdrechion i gynnal eu hurddas.

Lle roedd cleifion yn cael eu lletya mewn baeau gyda sawl gwely, gwelsom lenni urddas yn cael eu tynnu. Gwelsom hefyd fod drysau i doiledau yn cael eu cau pan oedd gofal personol yn cael ei roi. Roedd yr adborth a gawsom gan y cleifion a'r perthnasau yn gadarnhaol iawn gyda'r staff yn cael eu disgrifio fel 'sylwgar' a 'chwrtais'.

Roedd y cleifion i'w gweld yn cael gofal da ac wedi'u gwisgo'n addas, naill ai yn eu dillad eu hunain neu mewn gynau ysbyty. Gwelsom dystiolaeth fod poen y cleifion yn cael ei mesur, ei gweithredu arni a'i gwerthuso'n rheolaidd gan ddefnyddio adnodd asesu poen addas.

Roedd pob claf a gwblhaodd holiadur i gleifion yn cytuno bod y staff wedi eu trin ag urddas a pharch ac roeddent yn gwrtais tuag atynt. Yn ogystal, roedd pob un yn teimlo bod camau wedi cael eu cymryd i ddiogelu eu preifatrwydd. Roedd ymatebion yr holl gleifion yn dangos bod y staff wedi darparu gofal iddynt mewn ffordd garedig a sensitif.

Dywedodd y rhan fwyaf (18/19) o'r cleifion wrthym eu bod wedi cymryd cymaint o ran ag yr hoffent mewn penderfyniadau ynghylch eu gofal iechyd. Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym fod y staff wedi gwrando arnyn nhw ac ar eu teulu a'u ffrindiau.

Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Roedd y cleifion a welsom yn cael gofal da yn ôl pob golwg. Gwelsom y staff yn annog cleifion i symud a oedd yn dilyn ymgyrch mis Mai (Move it May) a gyflwynwyd i wella llif cleifion a'u rhyddhau o'r ysbyty yn amserol.

Gwelsom fod arwyddion wedi'u harddangos i helpu'r cleifion i ddod o hyd i'r toiledau a'r cyfleusterau ymolchi. Fodd bynnag, nid oedd arwyddion ychwanegol i helpu pobl gydag amddifadedd synhwyraidd. **Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff arwyddion ychwanegol eu hychwanegu ar gyfer toiledau a chyfleusterau ymolchi a fydd yn helpu cleifion gyda diffyg synhwyraidd i leoli'r cyfleusterau hynny.**

Gwelsom hysbysfwrdd mawr gyda gwybodaeth am ofal dementia. Fodd bynnag, nid oedd y wardiau'n defnyddio'r cynllun 'Dyma fi' na'r cynllun 'Pili Pala' ar gyfer cleifion gyda nam gwybyddol. **Rydym yn argymhell cyflwyno menter i gleifion sydd â nam gwybyddol fel 'Dyma Fi' neu'r 'Cynllun Pili Pala'.**

Amserol

Gofal amserol

Gwelsom fod y gofal a'r triniaethau ar y ward wedi'u cwblhau mewn ffordd amserol a phwylllog. Roedd y ward yn amgylchedd pwylllog ond prysur gyda'r staff yn cyflawni tasgau a thriniaethau mewn ffordd strwythuredig a threfnus.

Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur i gleifion wrthym fod y staff wedi rhoi gofal iddynt pan oedd ei angen arnynt. Cytunodd pob claf a gwblhaodd yr holiadur fod botwm galw nyrs ar gael iddynt bob amser. Pan ofynnwyd a oedd y staff yn dod atynt pan oeddent yn defnyddio'r botwm, cytunodd pob claf eu bod yn gwneud hynny.

Teg

Cyfathrebu ac Iaith

Gwelsom arwyddion i helpu'r ymwelwyr i ddod o hyd i'r wardiau ac i wardiau ac adrannau eraill yn yr ysbyty. Gwelsom fod y rhain yn hawdd i'w dilyn ar y cyfan. Fodd bynnag, roedd yr arwyddion wrth fynedfa'r ward wedi'u hysgrifennu â llaw ac yn aros i gael eu newid. Dywedodd rheolwr y ward wrthym fod arwydd wedi'i archebu a'i fod yn aros iddo gyrraedd.

Hawliau a Chydraddoldeb

Yn ystod ein harolygiad, gwelsom y staff yn rhoi gofal i'r cleifion mewn ffordd a oedd yn cydnabod eu hanghenion a'u hawliau unigol.

Er bod cyfyngiadau ar waith, dywedwyd wrthym fod y cleifion yn gallu derbyn ymweliadau gan eu ffrindiau a'u perthnasau. Gwelsom berthnasau yn ymweld â'r ward adeg prydau bwyd i helpu'r cleifion a oedd yn cael trafferth yn bwydo eu hunain.

Darparodd yr uwch-aelodau o'r staff ffigurau cydymffurfio i ni a oedd yn dangos bod y rhan fwyaf o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth fel rhan o raglen hyfforddiant gorfodol y bwrdd iechyd.

Hefyd, dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur i gleifion wrthym nad oeddent wedi wynebu gwahaniaethu wrth gael gafael ar y gwasanaeth iechyd nac wrth ei ddefnyddio.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli Risg

Gwelsom fod y wardiau yn hygyrch i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr. Roedd mynediad gwastad i'r ysbyty gyda lifftiau i gyrraedd pob ward a oedd wedi'u lleoli dros sawl lefel.

Gwelsom fod angen adnewyddu'r arwyddion wrth fynedfa'r wardiau. Dywedodd rheolwr y ward wrthym fod y rhain wedi'u harchebu.

Gwelwyd bod ardaloedd y wardiau yn drefnus ac yn daclus gan alluogi i gadeiriau olwyn, stretsieri a throlïau gael eu symud. Gwelsom fod y wardiau yn lân ac yn daclus. Roedd y staff glanhau domestig yn bresennol ar y wardiau drwy gydol ein harolygiad.

Roedd yr uwch-staff yn disgrifio trefniadau addas ar gyfer adrodd, cofnodi ac ymchwilio i ddiwyddiadau ac i ddarparu adborth i staff y ward.

Gwelsom dystiolaeth yn ystod ein hadolygiad o gofnodion fod y cleifion wedi cael eu hasesu am y risg o ddatblygu briwiau pwyso. Roedd cynlluniau gofal priodol ar waith yn unol â'r risg a nodwyd. Gwelsom dystiolaeth o gleifion yn cael eu hail-leoli'n aml lle bo angen. Gwelsom dystiolaeth hefyd fod croen y cleifion yn cael ei fonitro'n barhaus, yn enwedig yn y cyfnod ar ôl llawdriniaeth lle roedd y cleifion yn llai symudol o lawer.

Gwelsom dystiolaeth fod y cleifion wedi cael eu hasesu am y risg o gwmpo. Lle y nodwyd bod risg y bydd cleifion yn cwmpo, gwelsom fod cynlluniau gofal priodol wedi cael eu rhoi ar waith.

Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi

Canfuwyd bod y ward yn lân ac yn daclus iawn. Roedd cyfarpar yn cael ei lanhau rhwng defnydd gan y cleifion ac yn cael ei osod mewn storfa ddynodedig. Gwelsom fod matresi a gwelyau'n cael eu glanhau ar ôl i gleifion eu defnyddio ac roeddent yn cael eu harchwilio'n wythnosol. Gwelsom fod modd gweld y staff glanhau ar y ddwy ward yn ystod yr arolygiad. Gwelwyd bod ardal y ward mewn cyflwr da ac roedd y dodrefn yn golygu bod modd eu glanhau'n effeithiol.

Gwelsom fod cyfarpar diogelu personol a gel dwylo ar gael drwy'r ward a gwelwyd y staff yn ei ddefnyddio'n briodol. Gwelsom ddulliau ynysu addas ar y ddwy ward.

Dywedwyd wrthym pe bai angen ynysu claf er mwyn hwyluso gwaith atal a rheoli heintiau, byddai un o'r tri chiwbicl yn cael ei ddefnyddio i gyflawni gwaith nyrsio ataliol.

Gwelsom fod y groes ddiogelwch ar Ward D2 y Gorrlewin yn dangos gwybodaeth a oedd wedi darfod. Nid oedd Croes Ddiogelwch i'w gweld ar Ward D2 y Dwyrain. **Rydym yn argymhell bod y bwrdd iechyd yn arddangos croesau diogelwch cyfredol ar y ddwy ward er mwyn rhoi gwybodaeth am ddata diogelwch y ward i staff ac ymwelwyr.**

Darparwyd dogfennau i ni sy'n dangos bod gweithgarwch archwilio atal a rheoli heintiau wedi'i gwblhau bob mis. Roedd canlyniad yr archwiliad ar gyfer noeth o dan y penelin ar ward D2 y Dwyrain wedi bod islaw 85% ers pedwar mis. **Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl staff yn cadw at y rheoliadau a'u bod yn noeth o dan y penelin mewn ardaloedd clinigol.**

Diogelu Plant ac Oedolion

Disgrifiodd uwch-aelodau o'r staff drefniadau addas ar gyfer ymateb i bryderon diogelu. Gwelsom fod polisi a gweithdrefnau ysgrifenedig cyfredol ar waith. Roedd y rhain yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru. Cadarnhaodd yr uwch-aelodau o staff y gallai'r staff gysylltu ag arweinydd diogelu'r bwrdd iechyd i gael cyngor ar faterion diogelu.

Roedd hyfforddiant diogelu yn rhan o raglen hyfforddiant gorfodol y bwrdd iechyd. Roedd y data a ddarparwyd gan yr uwch-aelodau o staff yn dangos bod 100% yn cydymffurfio ar Ward D2 y Gorrlewin a 91% yn cydymffurfio ar Ward D2 y Dwyrain ar gyfer diogelu oedolion a 93% ar Ward D2 y Gorrlewin a 91% ar Ward D2 y Dwyrain ar gyfer diogelu plant.

Rheoli gwaed

Nodwyd gennym fod trefniadau caeth ar waith i sicrhau bod cynhyrchion gwaed yn cael eu rhoi'n ddiogel ar y ddwy ward. Roedd y staff hefyd yn ymwybodol o'r broses gywir o roi gwybod am ddigwyddiadau niweidiol mewn cysylltiad â chynhyrchion gwaed.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn hyderus o ran y broses o roi a monitro cynhyrchion gwaed, gan gynnwys gwiriadau cleifion. Dywedwyd wrthym fod cofnod o'r holl staff sy'n gymwys i roi cynhyrchion gwaed yn cael ei gadw gan reolwyr y wardiau.

Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Gwelsom fod amrywiaeth o gyfarpar ar gael i ddiwallu'r anghenion a aseswyd ar gyfer y cleifion, megis matresi lleddfu pwysau, cymhorthion symudedd, comodau a

pheiriannau monitro arwyddion hanfodol i fywyd. Cytunodd y staff y gwnaethom siarad â nhw fod y cyfarpar cywir ar gael iddynt helpu gyda gofal cleifion.

Gwelsom fod labeli ar gyfarpar i ddangos pryd roedd angen eu gwasanaethu a gwelwyd bod y rhain yn gyfredol.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'r weithdrefn gywir i'w dilyn er mwyn rhoi gwybod am gyfarpar diffygiol. Gwelsom aelodau o'r staff yn glanhau'r cyfarpar a rennir ar ôl ei ddefnyddio er mwyn atal achosion o groesheintio.

Rheoli Meddyginiaethau

Gwelsom fod meddyginiaethau wedi'u rhagnodi, eu dogfennu a'u rhoi yn gywir yn unol â'r polisi rheoli meddyginiaethau. Roedd cyffuriau yn cael eu storio'n briodol mewn cypyrddau wedi'u cloi mewn ystafell wedi'i chloi. Fodd bynnag, gwelsom fod y drws i'r ystafell gyffuriau wedi'i gadw ar agor â lletem yn ystod ein harolygiad. Uwchgyfeiriwyd hyn i reolwyr y wardiau a chafodd ei ddatrys ar unwaith. Rhoddodd rheolwr y ward wybod i'r staff fod yn rhaid cadw'r drws ar glo.

Canfuwyd bod y polisi rheoli meddyginiaethau yn ddigon cadarn. Roedd tymereddau'r oergelloedd storio meddyginiaeth yn cael eu gwirio a'u cofnodi'n briodol bob dydd.

Roedd y siartiau rhoi meddyginiaeth yn cael eu cwblhau'n gywir ar y cyfan. Gwelsom fod manylion y cleifion yn cael eu dangos ar bob siart, ond nid oedd yn hyn yn gyson drwy'r siart bob amser.

Roedd gan y ward fferylllydd dynodedig ac roedd modd i'r staff gael gafael ar feddyginiaeth gan reolwr y safle y tu allan i oriau. Nododd y staff eu bod yn teimlo y gallent gael gafael ar feddyginiaethau a'u bod yn cael eu cefnogi gan staff y fferyllfa. Nid oedd ocsigen yn cael ei ragnodi ar y siart meddyginiaethau ond roedd hwn wedi'i ddogfennu yn y Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol. Rydym yn argymhell bod y ward yn sicrhau bod yr angen am ocsigen yn cael ei ragnodi ar y siart meddyginiaethau.

Effeithiol

Gofal Effeithiol

Gwelsom dystiolaeth fod y gwasanaethau yn cael eu trefnu i sicrhau bod modd symud trwy lwybrau. Gwelsom fod atgyfeiriadau'n cael eu gwneud i'r timau amlddisgyblaethol cyn rhyddhau cleifion.

Gwelsom gyfathrebu da rhwng y staff a oedd yn cynnwys y broses trosglwyddo rhwng shifftiau a dosbarthu gwybodaeth drwy'r tîm.

Roedd gan y ward swyddog cyswllt rhyddhau cleifion dynodedig a oedd yn helpu ym mhob agwedd ar gynllunio'r broses o ryddhau cleifion. Roeddent yn sicrhau bod teuluoedd yn rhan o'r broses gynllunio ac yn hwyluso cyfathrebu â'r tîm ehangach.

Roedd system rheoli cleifion electronig ar waith lle roedd arsylwadau o arwyddion hanfodol i fywyd yn cael eu cofnodi a'u hamlygu pan oedd Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol yn uchel a phan oedd angen ail-wneud yr arsylwadau.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o sut i gael gafael ar bolisiau a gweithdrefnau clinigol yr ysbyty er mwyn eu cefnogi â'u harferion.

Gwelsom fod byrddau Cipolwg ar Statws Cleifion i'w gweld yn glir, a oedd yn cynnwys blaenlythrennau a chyfenw'r cleifion, ynghyd â gwybodaeth ar ffurf byrfoddau am statws pob claf er mwyn helpu aelodau'r tîm amlddisgyblaethol i gyfathrebu â'i gilydd.

Maeth a hydradu

Roedd gwybodaeth mewn perthynas ag anghenion maeth y claf yn cael ei rhoi adeg trosglwyddo'r shifft a'i dogfennu yng nghofnodion y cleifion. Roedd croeso i berthnasau ymweld â'r ward adeg prydau bwyd er mwyn cynorthwyo'r cleifion yr oedd angen help arnynt i fwyta ac yfed. Gwelwyd bod dŵr ar gael i'r cleifion a bod diodydd poeth yn cael eu gweini o gwmpas adeg prydau bwyd neu ar gais.

Cofnodion y Cleifion

Gwelsom fod cofnodion y cleifion yn gyfredol a bod y nodiadau'n dangos tystiolaeth fod y gofal yn cael ei asesu a'i werthuso. Roedd y ddogfennaeth o safon dda ar y cyfan. Gwelsom fod y cofnodion yn cael eu cadw'n ddiogel mewn cypyrddau wedi'u cloi ac ar gael i holl aelodau'r tîm amlddisgyblaethol.

Gwelsom fod iPads yn cael eu defnyddio i gofnodi arwyddion hanfodol i fywyd y cleifion gan ddefnyddio'r adnodd Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol. Dywedodd y staff wrthym fod rhybudd yn cael ei godi pan oedd claf yn cael Sgôr Rhybudd Cynnar Cenedlaethol uchel, a oedd yn cael ei dderbyn gan yr Uwch-ymarferwyr Nyrsio, sydd wedyn yn mynd i'r ward i wneud adolygiad ar gyfer y claf. Gwelwyd hefyd fod yr iPads yn rhybuddio nyrsys y ward pan oedd hi'n amser i'r claf gael cofnodion arwyddion hanfodol i fywyd dilynol. Cytunodd y staff y gwnaethom siarad â nhw fod yr iPads yn ychwanegiad da er mwyn gallu rhoi gofal yn effeithiol.

Effeithlon

Effeithlon

Yn ystod ein hadolygiad o gofnodion, gwelsom fod atgyfeiriadau wedi'u gwneud i feysydd Ffisiotherapi a Therapi Galwedigaethol pan oedd angen. Gwelsom fod Swyddog Cyswllt Dynodedig ar y ward yn cefnogi'r gwaith o ryddhau cleifion, a oedd yn helpu i hwyluso proses rhyddhau diogel ac effeithlon a phroses bontio llyfn i'r gymuned.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac Arweinyddiaeth

Nodwyd bod strwythur rheoli addas ar waith a chafodd llinellau adrodd ac atebolrwydd clir eu disgrifio a'u hamlygu. Cadarnhaodd yr uwch-aelodau o'r staff eu bod yn ymweld â'r ward yn rheolaidd a'u bod ar gael i roi cyngor a chymorth i reolwyr y wardiau a thimau'r wardiau.

Disgrifiodd yr uwch-aelodau o staff system ar gyfer archwilio a darparwyd enghreifftiau yn dangos y broses hon. Gwelsom fod amrywiaeth o archwiliadau wedi'u cynnal a oedd yn cynnwys archwiliad o ymweliadau wardiau a gwblhawyd gan archwilydd allanol.

Gwelsom fod trefniadau monitro ansawdd a diogelwch da ar y ward. Disgrifiwyd trefniadau addas ar gyfer rhannu gwybodaeth berthnasol a diweddariadau i bolisiâu a gweithdrefnau gyda thimau ehangach y wardiau.

Yn ystod ein harolygiad, nodwyd bod rheolwyr y ward yn ymgysylltu'n gadarnhaol ac yn gydweithredol â phroses arolygu AGIC. Gwnaethant ddangos ymrwymiad i ddysgu o'r arolygiad a gwneud gwelliannau fel y bo'n briodol.

Y Gweithlu

Gweithlu Medrus a Galluog

Gwelsom feddygon, staff nyrsio, gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd, staff cymorth gofal iechyd, staff gweinyddol, staff arlwyo/gweini a staff domestig yn gweithio ar y ddwy ward.

Yn ystod ein harolygiad, roedd y lefelau staffio a'r cymysgedd sgiliau ar y ddwy ward i'w gweld yn briodol i ddiwallu'r anghenion a aseswyd ar gyfer y cleifion. Dywedwyd wrthym fod staff banc yn cael eu defnyddio i gyflenwi unrhyw ddiffygion staffio nad oedd modd i aelodau o dîm y ward eu cyflenwi.

Dywedodd rheolwr y ward wrthym eu bod yn defnyddio'r rhaglen ddigidol Safe Care i sicrhau bod y nifer cywir o staff yn bresennol ar gyfer y lefel aciwtedd ar y ward. Roedd hwn yn cael ei gwblhau ddwywaith y dydd wrth newid shiftt a gallai gael ei ddiweddarau unrhyw bryd yn ystod y shiftt os oedd newid mewn staff neu newid yn sefyllfa'r claf.

Dangoswyd manylion y staff ar fwrdd wrth y fynedfa i D2 y Dwyrain lle gallai'r cleifion a'r ymwelwyr edrych arnynt yn glir. Roedd hyn yn cynnwys enw a rôl yr aelod o'r staff a pha liw wisg y mae'n ei gwisgo.

Dyweddodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn hyderus ynghylch pwy i roi gwybod am bryderon a phryd.

Gwnaethom ofyn am fanylion hyfforddiant staff gorfodol. Roedd cydymffurfiaeth yn dda ar gyfer mwyafrif y pynciau ac roedd dros 85% o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant. Fodd bynnag, roedd y data a ddarparwyd yn dangos bod cydymffurfiaeth â hyfforddiant ar symud a chodi a chario diogel yn isel ar y ddwy ward. **Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl staff yn cwblhau hyfforddiant codi a chario diogel fel rhan o'r rhaglen hyfforddiant gorfodol.**

Gwelsom dystiolaeth fod yr holl staff yn cael arfarniad blynyddol a oedd yn cael ei ddogfennu a'i gofnodi mewn ffeiliau staff unigol. Roedd cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal bob pedwar mis gyda chyfle i gynnal cyfarfodydd yn fwy rheolaidd os oedd angen.

Disgrifiodd y staff y broses y byddai digwyddiadau'n cael eu hadrodd arnynt, a oedd yn cynnwys cwblhau adroddiad digwyddiadau Datix.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Gwelsom fod rheolwyr i'w gweld ar y ddwy ward ac roeddent i weld yn gyfeillgar ac yn broffesiynol. Gwelsom fod y rheolwyr yn cymryd rhan wrth ddarparu gofal ac yn helpu gyda'r rowndiau rhoi meddyginiaeth.

Roedd y ward yn dilyn proses gwyno Gweithio i Wella. Dywedwyd wrthym fod a wnelo mwyafrif y cwynion ag amseroedd aros am lawdriniaeth wroleg. Dywedodd y rheolwyr wrthym fod cwynion wedi'u dogfennu yn nodiadau'r cleifion ac ar system Datix. Roedd y cwynion yn cael eu nodi mewn cronfa ddata ac roedd rheolwyr y wardiau a'r tîm gweithio i wella yn ymchwilio iddynt. Roedd rheolwyr y wardiau'n rhannu gwersi a ddysgwyd trwy sesiynau briffio ar ddiogelwch, negeseuon e-bost a thrwy grŵp WhatsApp y ward.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Dywedwyd wrthym am fentrau sy'n digwydd ar y wardiau sy'n cynnwys staff o'r timau amlddisgyblaethol. Roedd y fenter ddiweddaraf yn cael ei hadnabod fel 'Move it May' a oedd yn annog proses rhyddhau cleifion mwy syml a diogel. Dywedwyd wrthym fod y broses rhyddhau cleifion wedi gwella yn ystod cyfnod y fenter.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
<p>Yn ystod ein taith gyntaf o ardaloedd y ward, gwnaethom nodi bod Cyfarpar COSHH wedi'i adael yn yr olchfa ac nad oedd storfa cyfarpar COSHH wedi'i chloi.</p>	<p>Roedd hyn yn peri risg i gleifion neu y gallai ymwelwyr gael gafael ar sylweddau niweidiol sy'n gwenwyno neu'n achosi niwed i'r croen neu'r llygaid.</p>	<p>Uwchgyfeiriwyd hyn i Reolwr y Ward ar unwaith a gysylltodd â'r staff domestig a'r adran ystadau.</p>	<p>Cafodd y cyfarpar COSHH ei symud o'r olchfa a'i gadw'n ddiogel mewn cwpwrdd wedi'i gloi. Rhoddodd rheolwr y ward gyfarwyddyd i'r tîm ystadau ddarparu clo ar ddrws y cwpwrdd cyfarpar COSHH.</p>
<p>Yn ystod ein taith o'r ward, gwnaethom sylwi bod y drws i'r cwpwrdd paratoi meddyginiaethau wedi'i gadw ar agor gyda bin gan alluogi cleifion ac ymwelwyr i fynd i'r ystafell.</p>	<p>Mae risg y gallai cleifion fynd at feddyginiaethau a dyfeisiau meddygol.</p>	<p>Uwchgyfeiriwyd hyn i Reolwr y Ward ar unwaith.</p>	<p>Cafodd y drws ei gau a'i gloi gan sicrhau na allai unrhyw un heb awdurdod fynd i mewn i'r ystafell. Cafodd timau'r wardiau gyfarwyddyd i sicrhau bod y drws ar gau ac ar glo drwy'r amser.</p>

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Wardiau D2 y Dwyrain a'r Gorllewin, Ysbyty Brenhinol Gwent, Casnewydd

Dyddiad yr arolygiad: 3 a 4 Mai 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw welliannau yr oedd angen eu gwneud ar unwaith				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Wardiau D2 y Dwyrain a'r Gorllewin, Ysbyty Brenhinol Gwent, Casnewydd

Dyddiad yr arolygiad: 3 a 4 Mai 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Gwnaethom nodi mai prin oedd y wybodaeth hybu iechyd ar y ddwy ward.	<p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC ynglyn â'r camau a gymerwyd i adolygu'r ddarpariaeth gwybodaeth sydd ar gael i gleifion/ymwelwyr ar y wardiau a sut y gellir arddangos y wybodaeth yn gliriach.</p> <p>Rhaid i hyn gynnwys gwybodaeth i gleifion/cynrychiolwyr am sut y gallent roi adborth a gwneud cwyn.</p>	<p>Mae bwrdd gwybodaeth hybu iechyd wedi'i ddatblygu a'i ychwanegu at fyrddau addysg y ward ar D2 y Gorllewin a'r Dwyrain.</p> <p>Mae byrddau addysg wardiau wedi'u hychwanegu at archwiliadau nyrsio DECI er mwyn sicrhau gwaith safoni.</p> <p>Mae gwybodaeth mewn perthynas â'r weithdrefn mynegi pryderon wedi'i harddanagos yn glir yn ardaloedd y wardiau.</p>	Pennaeth Nyrsio	31 Gorffennaf 2023

<p>Nid oedd digon o arwyddion i gleifion gyda nam ar y synhwyrâu.</p>	<p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC ynglyn â'r camau a gymerwyd i adolygu'r arwyddion a ddefnyddir ar y wardiau i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion y cleifion sydd â nam ar y synhwyrâu neu anawsterau gwybyddol.</p>	<p>Caiff byrddau addysg i bobl â nam gwybyddol eu harddangos ar y ddwy ward sy'n cynnwys canllawiau ar sut i gwblhau'r ddogfennaeth 'Dyma Fi'.</p> <p>Gwnaed trefniadau i'r Tîm Gofal sy'n Canolbwyntio ar y Claf ymweld â'r wardiau i roi cyngor ar arwyddion ac adnoddau ychwanegol i gefnogi cleifion gyda nam ar y synhwyrâu neu anawsterau gwybyddol.</p> <p>Mae arwyddion cyfeirio clir bellach ar waith i gyfeirio cleifion at ddolen sain.</p>	<p>Pennaeth Nyrsio</p>	<p>31 Awst 2023</p>
<p>Nodwyd bod cydymffurfiaeth yn wael â hyfforddiant symud a chodi a chario diogel.</p>	<p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i wella cydymffurfiaeth y staff â hyfforddiant symud a chodi a chario gorfodol.</p>	<p>Mae nifer yr arbenigwyr trosglwyddo wedi cynyddu ar draws yr Is-adran.</p> <p>Mae absenoldeb Addysg/Astudio wedi'i nodi ar yr amserlen er mwyn rhoi</p>	<p>Nyrs Is-adrannol</p>	<p>30 Medi 2023</p>

		<p>cyfle i'r staff gwblhau hyfforddiant ar godi a chario.</p> <p>Mae rhestr wirio a llyfr gwaith wedi'u datblygu a'u harchebu i'r holl staff eu cwblhau o fewn 2 wythnos o ddechrau eu swydd.</p>		
<p>Gwelsom fod yr archwiliad ar gyfer 'noeth o dan y penelin' wedi bod islaw 85% ers pedwar mis.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl staff yn cadw at y rheoliadau a'u bod yn noeth o dan y penelin mewn ardaloedd clinigol.</p>	<p>Mae'r archwiliadau hylendid dwylo wedi'u cynyddu i ddyddiol hyd nes y bydd cydymffurfiaeth o uwchlaw 95%.</p> <p>Dengys poster noeth o dan y penelin mewn ardaloedd clinigol</p> <p>Bydd camau gweithredu a gwersi a ddysgwyd yn cael eu hadrodd yn ôl yn y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cyfarfodydd wardiau • cyfarfodydd rheolwyr y wardiau 	<p>Nyrs Is-adrannol</p>	<p>31 Awst 2023</p>

- | | | | |
|--|--|--|--|
| | | <ul style="list-style-type: none">• cyfarfodydd y gyfarwyddiaeth wroleg. | |
| | | | |
| | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Amanda Hale

Teitl swydd: Nyrs Is-adrannol

Dyddiad: 17 Gorffennaf 2023